OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 8

## BENTHYCIAD CYNHALIAETH

**Amodau cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth**

**54.** Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol oni bai bod un o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr cymwys yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r myfyriwr cymwys yn 60 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol.

*Eithriad 4*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r Eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) bo'r myfyriwr ("M") neu berthynas agos i M yn aelod o'r lluoedd arfog,

(b) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, ac

(c) na fo M yng Nghymru ar y diwrnod hwnnw oherwydd bod M neu'r berthynas agos yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru.

*Eithriad 5*

Mae'r cwrs presennol yn arwain at gymhwyster fel—

(a) pensaer tirwedd,

(b) dylunydd tirwedd,

(c) rheolwr tirwedd,

(d) cynllunydd tref, neu

(e) cynllunydd gwlad a thref.